

(CPS) yn erlyn pob achos ar ran yr NCA, yr heddlu, CThEM ac eraill ac mae'n ymgymryd ag atafaelu ac adfer sifil. Mae rhestr lawn o'r gwahanol sefydliadau sy'n ymwneud â mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig yn Atodiad A.

46 Fel rhan o'r ymateb ar draws y system, bydd yr NCA yn derbyn adnoddau ychwanegol yn 2018-2020 i arwain proses o ddatblygu galluoedd cenedlaethol newydd megis y Ganolfan Asesu Genedlaethol (NAC), y Gallu Cenedlaethol ar Ddefnyddio Gwybodaeth (NDEC) a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Troseddu Economaidd (NECC), a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref ar y pryd ym mis Rhagfyr 2017. Bydd hyn yn sicrhau bod ganddynt alluoedd sy'n arwain y byd i dargedu, ymlid a dihatru'r troseddwyr difrifol a threfnedig sy'n achosi'r niwed uchaf a'r carfannau elitaidd llygredig a throseddwyr sy'n ceisio gwyngalchu eu harian budr yn a thrwy'r DU.

47 Mae cyd-gais diweddar NCA ac NPCC i Gronfa Drawsnewid yr Heddlu (PTF) wedi sicrhau £2.2 filiwn ar gyfer codiad uniongyrchol i weithio i fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein. Bydd hyn yn ariannu ehangiad sylweddol o'r NCA a GCHQ (JOT) i gynyddu eu gallu i dargedu'r troseddwyr mwyaf peryglus a phenderfynol sy'n camfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein. Mae hyn yn golygu bod mwy o swyddogion yn gweithio i nodi'r cyflawnwyr hynny sy'n cuddio y tu ôl i anonymeiddio. Bydd y codiad yn creu piblinell o guddwybodaeth a fydd yn dangos y rhai hynny sy'n proffesu bod yn blant er mwyn paratoi i bwrpas rhyw, troseddwyr risg uchel sy'n defnyddio technoleg i anonymeiddio eu presenoldeb a throseddwyr sy'n cyrchu ffrydio byw dramor.

48 Byddwn ni'n ymrwymo £500,000 i ddarparu darlun gwell i asiantaethau gorfodi'r gyfraith o droseddu ynghylch camfanteisio'n rhywiol ar blant ar y we dywyll. Bydd hyn yn defnyddio'r data sydd ar gael i nodi, asesu ac ymlid y drwgdybiedigion risg uchaf o ddiddordeb sy'n effeithio ar y DU, fel y gallwn ni flaenoriaethu ein hadnoddau yn eu herbyn, mewn cydweithrediad â phartneriaid rhyngwladol.

49 Trwy ein cymorth o £40 miliwn i'r Gronfa i Ddileu Trais yn Erbyn Plant hyd at 2019-20, rydym hefyd wedi annog ffocws cryfach ar yr angen i ddatblygu atebion technolegol arloesol i dorri tir newydd wrth fynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant ar-lein. Trwy hyn, yn 2018 rydym wedi ariannu datblygiad 'Solis' – offeryn arloesol ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith i gyflymu'r modd nodi deunydd sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a'u cam-drin yn rhywiol ar y We Dywyll.